Minutes of the **Planning and Amenities Committee** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, on **Monday 13 May, 2019** at 6.30 p.m.

**PRESENT: -** His Worship The Mayor Councillor John Wyn Williams
The Deputy Mayor Councillor Owen Hurcum

| Councillors | | | |
|---|---|---|---|
| | Dylan Fearnley | C King | Mair Rowlands |
| | D Hainge | John Martin | Luke Tugwell |
| | Medwyn Hughes | Enid Parry | Elin Walker Jones |
| | Keith Jones | Gwynant Roberts | Huw Wynn Jones |
| | John Wynn Jones | Salik Rahman | |

Officer: - Mr Ian Jones, Town Clerk

**08/19 APPOINTMENT OF CHAIRMAN**

**RESOLVED:** that Councillor Gwynant Roberts be appointed Chairman of the Committee for the forthcoming Municipal Year.

**09/19 APOLOGIES**

Apologies for absence were received from Councillors Les Day, Ifan James, Nigel Pickavance and Gareth Roberts.

**10/19 DECLARATION OF FINANCIAL INTEREST OR PERSONAL CONNECTION**

Councillor Enid Parry declared an interest in Planning Application **C19/0330/11/LL**.

**11/19 APPOINTMENT OF VICE-CHAIRMAN**

**RESOLVED:** that Councillor Luke Tugwell be appointed Vice-Chairman of the Committee for the forthcoming Municipal Year.

**12/19 URGENT BUSINESS**

Councillors commented on the success of the Moveable Feast event which had been held on the Pier on Friday 10 May. It was agreed that a charge should be made if the event went ahead in future although in 2018 the event was not successful as it was very much weather dependent.

Councillor D Hainge referred to the former Mayor Evelyn Butler's recent illness and Members asked the Town Clerk to confer their best wishes to Mrs Butler.

**13/19 PLANNING APPLICATIONS**

**RESOLVED:** that the Gwynedd Planning Authority be advised that the City Council have the following observations to make on the applications listed below: -

**C19/0330/11/LL** Rear extension and dormer window. 28 Ffordd y Coleg. **Objection as this property has already been altered to form 8 bedrooms. A further addition to form a 9th bedroom is an over-development of this existing HMO and would exacerbate the exisiting problems in this area.**

Councillor E Parry left the chamber for the discussion of the above application.

**C19/0362/11/LL** Demolish garage and erect a single storey annexe at the rear of the dwelling. Bryn Awel, Ffordd Deiniol. **Objection** to the proposal as it was deemed an over-deelopment of the site.

**C19/0372/11/LL** Create a parking area and associated works. 45 Toronnen. **No objection.**

**C19/0378/11/LL** Two storey extension at rear. 14 Lon Bedw, Coed Mawr. **No objection.**

**C19/0398/11/LL** Application to demolish building (Use class B8) and erect supermarket (Use class A1), creation of 113 parking spaces, soft landscaping works, reconfiguration of site access, including the creation of a roundabout and alterations to existing parking arrangements fronting Dunelm Store together with alterations to service access. Blakemore Cash and Carry, Ffordd Caernarfon. O**bjection as this development if approved is contrary to section 6.3 of the LDP i.e. "restricting the expansion of out-of-town retailing and leisure development". There is concern at the current level of traffic movements and congestion in this area. A further large retail outlet would generate an unacceptable increase in traffic flow on Caernarfon Road which is often gridlocked currently. The change of use from storage to retail is contrary to the planning policy for out-of-town developments.**

**14/19 LICENSING MATTERS -** None.

**15/19 HIGHWAY MATTERS**

The Town Clerk reported on the “Proposed Parking Restriction – Arfon (No.8) 2019 Bangor and Tregarth”

**RESOLVED:** that no objections be submitted.

The Meeting closed at 7.10 p.m.

Cofnodion Cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, **Nos Lun, Mai 13, 2019** am 6.30 y.h.

**PRESENNOL** :- Ei Deilyngdod y Maer, y Cynghorydd John Wyn Williams
Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Owen Hurcum

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynghorwyr | Dylan Fearnley | C King | Mair Rowlands |
| | D Hainge | John Martin | Luke Tugwell |
| | Medwyn Hughes | Enid Parry | Elin Walker Jones |
| | Keith Jones | Gwynant Roberts | Huw Wynn Jones |
| | John Wynn Jones | Salik Rahman | |

Swyddog :- Mr Ian Jones, Clerc y Dref

**8/19 PENODI CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD:** ethol y Cynghorydd Gwynant Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor am y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod.

**9/19 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwyr Les Day, Ifan James, Nigel Pickavance a Gareth Roberts

**10/19 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Enid Parry gysylltiad â Chais Cynllunio **C19/0330/11/LL**.

**11/19 PENODI IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD:** ethol y Cynghorydd Luke Tugwell yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor am y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod.

**12/19 MATERION BRYS**

Soniodd y Cynghorwyr am lwyddiant y Wledd Symudol a gynhaliwyd ar y Pier ddydd Gwener 10 Mai. Cytunwyd y dylid codi am y digwyddiad pe bai'n cael ei gynnal eto yn y dyfodol. Wedi dweud hynny nid oedd mor llwyddiannus yn 2018 gan ei fod yn ddigwyddiad oedd yn dibynnu gymaint ar y tywydd.

Cyferiodd y Cynghorydd D Hainge at salwch diweddar y cyn Faer, Evelyn Butler, a gofynnodd yr Aelodau i Glerc y Dref anfon eu dymuniadau gorau at Mrs Butler.

**13/19 CEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD :** Hysbysu Awdurdod Cynllunio Gwynedd mai'r canlynol yw sylwadau Cyngor y Ddinas ar y ceisiadau a restrir isod :-

**C19/0330/11/LL** Estyniad cefn a ffenestr gromen. 28 Ffordd y Coleg. **Gwrthwynebiad gan fod yr eiddo hwn eisoes wedi cael ei newid i ffurfio 8 ystafell wely. Byddai ychwanegu 9fed ystafell wely yn gor-ddatblygu'r Eiddo Amlfeddiannaeth hwn a byddai'n gwaethygu'r problemau sy'n bodoli'n barod yn yr ardal.**

Gadawodd y Cynghorydd E Parry y Siambr yn ystod y drafodaeth am y cais uchod.

**C19/0362/11/LL** Dymchwel modurdy a chodi anecs unllawr yng nghefn yr annedd. Bryn Awel, Ffordd Deiniol. **Gwrthwynebiad gan y byddai hyn yn or-ddatblygu ar y safle.**

**C19/0372/11/LL** Creu man parcio a gwaith cysylltiedig. 45 Toronnen. **Dim Gwrthwynebiad**

**C19/0378/11/LL** Estyniad deulawr yn y cefn. 14 Lôn y Bedw, Coed Mawr. **Dim Gwrthwynebiad**

**C19/0398/11/LL** Cais i ddymchwel adeilad (Dosbarth defnydd B8) a chodi archfarchnad (Dosbarth defnydd A1), creu 113 man parcio, gwaith tirlunio meddal, ail strwythuro mynedfa'r safle, sy'n cynnwys creu cylchfan a newidiadau i drefniant parcio presennol o flaen siop Dunelm, ynghyd â newidiadau i'r fynedfa gwasanaethu. Blakemore Cash and Carry, Ffordd Caernarfon **Gwrthwynebiad gan y byddai'r datblygiad hwn, o'i gymeradwyo, yn groes i adran 6.3 o'r Cynllun Datblygu lleol, h.y. "cyfyngu ar ehangu datblygiadau manwerthu a hamdden y tu allan i'r dref". Mae pryder am y lefel bresennol o symudiadau traffig a thagfeydd yn yr ardal hon. Byddai siop fawr arall yn creu cynnydd annerbyniol yn llif y traffig ar Ffordd Caernarfon sydd ar hyn o bryd ar stop yn aml. Mae'r newid defnydd o storio i fanwerthu yn groes i'r polisi cynllunio ar gyfer datblygiadau y tu allan i'r dref.**

**14/19 MATERION TRWYDDEDU -** Dim

**15/19 MATERION PRIFFYRDD**

Adroddodd Clerc y Dref ar y "Cyfyngiad Parcio Arfaethedig – Arfon (Rhif 8) 2019 Bangor a Tregarth"

**PENDERFYNWYD:** peidio â chyflwyno unrhyw wrthwynebiad.

---

Daeth y Cyfarfod i ben am 7.10 y.h.